# Diwygio Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 gan Defra a Llywodraeth Cymru - Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio pa ddata personol sy'n cael ei gasglu ar gyfer y broses ymgynghori a sut mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer diwygio'r Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 gan y Llywodraeth. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am gynnwys yr hysbysiad preifatrwydd hwn, anfonwch e-bost at bathingwater@defra.gov.uk

## Pwy sy'n casglu eich data personol

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yw'r rheolydd ar gyfer y data personol rydyn ni'n ei gasglu:

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Seacole Building
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch sut mae Defra yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau cysylltiedig, gallwch gysylltu â rheolwr diogelu data Defra yn data.protection@defra.gov.uk neu yn y cyfeiriad uchod.

Swyddog diogelu data Defra sy'n gyfrifol am wirio bod Defra yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Gallwch gysylltu â nhw yn DefraGroupDataProtectionOfficer@defra.gov.uk neu yn y cyfeiriad uchod.

Mae Defra yn defnyddio Citizen Space i redeg ei ymarferion ymgynghori. Darperir Citizen Space gan Delib Ltd (Delib). I gael gwybodaeth am Delib, gan gynnwys sut y byddant yn defnyddio data personol, cliciwch ar yr hyperddolen ganlynol: https://www.delib.net/about_delib a chlicio ar y dolenni i'w Hysbysiad Preifatrwydd ar waelod y dudalen.

## Pa ddata personol rydyn ni'n ei gasglu a sut y caiff ei ddefnyddio

Rydyn ni'n yn casglu eich:

- Enw
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Barn

Mae Defra yn defnyddio eich data personol pan fydd yn ymgynghori â chi ac yn derbyn eich sylwadau a'ch safbwyntiau ar ddeddfwriaeth neu bolisi arfaethedig ar bynciau yr ydych wedi nodi sydd o ddiddordeb i chi. Efallai y bydd Defra yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i'ch gwahodd i roi eich sylwadau a'ch safbwyntiau mewn ymateb i ymarfer ymgynghori neu efallai y byddwch yn penderfynu ymateb i ymarfer ymgynghori rydych wedi'i weld ar GOV.UK neu rywle arall.

Os byddwch yn ymateb i ymarfer ymgynghori, mae'n debygol y bydd eich data personol yn cynnwys eich enw a'ch manylion cyswllt a'r sylwadau a'r safbwyntiau a roddwch yn eich ateb. Bydd Defra yn defnyddio eich data personol i gofnodi eich sylwadau a'ch safbwyntiau ac i ystyried eich ymateb – cyn belled ag y bo modd gyda phob ateb arall – pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

## Seiliau cyfreithlon dros brosesu eich data personol

Y sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol yw:

Mae dwy sail gyfreithiol mewn cyfraith diogelu data sy'n berthnasol i ddefnydd Defra o'ch data personol ar gyfer ymarferion ymgynghori:

(1) eich cydsyniad; a

(2) mae defnyddio (neu brosesu) eich data personol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg yr ymgymerir â hi er budd y cyhoedd.

Eich cydsyniad chi yw'r sail gyfreithiol gychwynnol ar gyfer defnyddio eich data personol at ddibenion ymarferion ymgynghori. Os yw Defra wedi cysylltu â chi'n uniongyrchol i roi gwybod i chi am ymarfer ymgynghori, y rheswm dros hynny yw eich bod wedi rhoi gwybod yn flaenorol i Defra yr hoffech dderbyn gohebiaeth ynghylch pwnc yr ymgynghoriad. P'un a ydych wedi derbyn ymarfer ymgynghori'n uniongyrchol gan Defra neu mewn unrhyw ffordd arall, os byddwch yn ymateb i ymarfer ymgynghori, byddwch yn gwneud hynny'n rhydd ac yn wirfoddol ar ôl cael y cyfle i gael gwybodaeth gyflawn o'r dogfennau ymgynghori.

Os byddwch yn ymateb i ymarfer ymgynghori, y sail gyfreithiol i Defra ddefnyddio eich data personol yn eich ymateb yw bod y defnydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd. Y dasg berthnasol er budd y cyhoedd yw yr ymgynghorir â phobl a sefydliadau, yn enwedig y rhai y mae deddfwriaeth neu bolisi arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt, ynghylch y cynigion a'u bod yn cael y cyfle i roi eu barn a'u sylwadau. Bydd Defra yn ystyried safbwyntiau a sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i ymgynghoriad cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

Os bydd Defra yn datgelu data personol wrth ymateb i gais dan gyfreithiau rhyddid gwybodaeth, y sail gyfreithiol yw bod angen i Defra ddefnyddio eich data personol er mwyn ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd. Y dasg berthnasol er budd y cyhoedd yw bod yn rhaid i Defra gydymffurfio â'i rwymedigaethau dan y cyfreithiau rhyddid gwybodaeth.

## Cydsyniad i brosesu eich data personol

Mae prosesu eich data personol yn seiliedig ar gydsyniad. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl unrhyw bryd drwy anfon-bost at bathingwater@defra.gov.uk

## Gyda phwy ydyn ni'n rhannu eich data personol

Bydd Defra yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion; ni fydd hyn yn cynnwys unrhyw ddata personol.

O fewn Defra, bydd eich data personol a'ch data adnabod ar gael i dimau sy'n gweithio ar yr ymgynghoriad. Byddai'r rhain yn cynnwys y canlynol: y tîm polisi dŵr ymdrochi, y Cydlynydd Ymgynghori a'r tîm sy'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. O bryd i'w gilydd, bydd Defra yn ymgysylltu â chontractwyr allanol i'w dadansoddi. Os felly, bydd hyn yn cael ei nodi'n glir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd unrhyw gontractwr allanol yn rhwym wrth bolisi diogelu data Defra.

Fel darparwyr Citizen Space, bydd Delib hefyd yn cael mynediad at eich data personol.

Rydym yn parchu eich preifatrwydd personol wrth ymateb i geisiadau mynediad at wybodaeth. Dim ond os bydd angen i fodloni gofynion statudol Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y byddwn yn rhannu gwybodaeth.

## Am ba hyd rydyn ni'n cadw data personol

Byddwn yn cadw eich data personol am uchafswm o 3 blynedd.

### Beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn darparu'r data personol

Mae cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori yn wirfoddol ac ni fydd unrhyw ôl-effeithiau i chi os byddwch yn dewis peidio ag ymateb i ymgynghoriad neu os byddwch yn tynnu eich ateb yn ôl ar unrhyw adeg.

### Defnyddio gwneud penderfyniadau neu broffilio awtomatig

Nid yw'r data personol a ddarperir gennych yn cael ei ddefnyddio ar gyfer:

- gwneud penderfyniadau awtomatig (gwneud penderfyniad drwy ddulliau awtomatig heb gynnwys pobl)

- proffilio (prosesu data personol yn awtomatig i werthuso pethau penodol am unigolyn)

**Trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r DU**

Ar gyfer unrhyw brosesu posibl y tu allan i'r DU, bydd Defra yn ceisio sicrwydd bod mesurau diogelu priodol wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu hawliau a rhyddid gwrthrychau'r data.

**Eich hawliau**

Ar sail y prosesu cyfreithlon uchod, eich hawliau unigol yw:

| | |
|---|---|
| **Tasg Gyhoeddus** | • Yr hawl i gael gwybod<br>• Yr hawl i gael mynediad<br>• Yr hawl i gywiro<br>• Yr hawl i gyfyngu ar brosesu<br>• Yr hawl i wrthwynebu<br>• Hawliau yn ymwneud â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomatig |
| **Cydsyniad** | • Yr hawl i gael gwybod<br>• Yr hawl i gael mynediad<br>• Yr hawl i gywiro<br>• Yr hawl i ddileu<br>• Yr hawl i gyfyngu ar brosesu<br>• Yr hawl i gludadwyedd data<br>• Hawliau yn ymwneud â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomatig |

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau unigol dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018), i'w chael yma.

**Cwynion**

Mae gennych chi hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar unrhyw adeg.

**Siarter gwybodaeth bersonol**

Mae ein siarter gwybodaeth bersonol yn esbonio mwy am eich hawliau dros eich data personol.